


# Ysgol Glan Clwyd

## Polisi Aesu Canolfan 68171 Haf 2021



<i>Enw'r Ganolfan</i>	<i>Rhif y Ganolfan</i>
<i>Ysgol Uwchradd Glan Clwyd</i>	<i>68171</i>
<i>Mabwysiadwyd y Polisi gan Fwrdd y Llywodraethwyr</i>	<i>Rhannwyd y polisi gyda staff:</i>
<i>Dyddiad: 23.2.21</i>	<i>Dyddiad: 24.3.21</i>
<i>Aelod o staff sy'n gyfrifol am y polisi:</i>	
<i>Gwyn Tudur</i>	

**MAE'R POLISI HWN WEDI'I GYMERADWYO A'I FABWYSIADU GAN Y LLYWODRAETHWYR**

## **1. Cefndir**

- 1.1. Yn dilyn penderfyniad polisi gan LL.C. i ddiddymu trefniadau arholiadau haf 2021 a'r datblygiadau gyda'r pandemig, ysgolion a cholegau fydd yn pennu graddau dros dro i ddysgwyr ar gyfer haf 2021. Yn dilyn sefydlu'r Grŵp Ymgynghorol Dylunio a Gweithredu Cenedlaethol mae Cymwysterau Cymru wedi cyhoeddi eu Canllawiau am drefniadau amgen ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch sydd wedi'u cymeradwyo. Mewn cydweithrediad bydd CBAC yn gwirio polisiau a gweithdrefnau ysgolion a cholegau er mwyn sicrhau ansawdd holl brosesau dyfarnu yn haf 2021.
- 1.2. Bydd Polisi'r Ganolfan hefyd yn ffurfio rhan hanfodol o'r broses apeladau pe byddai dysgwyr yn credu bod gwall wedi bod wrth bennu ei radd. Bydd angen i'r Ganolfan ddangos eu bod wedi dilyn Polisi'r Ganolfan yn briodol wrth benderfynu ar y Radd a Bennir gan Ganolfannau i'r dysgwr.

## **2. Datganiad o Fwriad**

2.1 Diben y Polisi Canolfan hwn yw gwneud y canlynol:

- sicrhau y cynhelir y broses Graddau a Bennir gan Ganolfannau yn deg, yn gyson, heb ragfarn ac yn effeithiol o fewn ac ar draws adrannau a'u bod yn cael eu cynnal drwy gydol y broses fel bod y prosesau'n cael eu gweithredu'n effeithiol gyda chanllawiau clir a chefnogaeth i'r staff
- sicrhau bod pob aelod o staff sy'n ymwneud â'r prosesau'n deall ei rôl a'i gyfrifoldebau
- i gefnogi athrawon i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth yn unol â gofynion Cymwysterau Cymru
- i gyflawni safon uchel o sicrhau ansawdd mewnol wrth ddyrannu'r graddau a bennir gan ganolfannau
- i sicrhau bod y ganolfan yn bodloni ei rhwymedigaethau o ran deddfwriaeth cydraddoldeb ac anabledd
- i sicrhau ein bod yn bodloni'r holl ofynion a nodir yn yr Amodau Rheoleiddiol Arbennig, a chyfarwyddiadau'r Cyd-gyngor Cymwysterau a Sefydliadau Dyfarnu ar gyfer cymwysterau Haf 2021.

2.2 Cyfrifoldeb pawb sy'n ymwneud â chynhyrchu Graddau a Bennir gan Ganolfannau yw darllen, deall a gweithredu'r polisi.

2.3 Rhennir y Polisi hwn i'r Saith Maes a ddynodwyd gan CBAC fel meysydd sydd yn rhaid i bob Canolfan ymdrin â nhw.

### 3. Rolau a Chyfrifoldebau

- 3.1 Bydd **Cadeirydd y Llywodraethwyr** yn ceisio cymeradwyaeth y Corff Llywodraethu Llawn ar gyfer y polisi a'i gynnwys yn nogfennaeth polisi'r ysgol.
- 3.2 Bydd y **Pennaeth a'r Uwch Dim Arwain** yn sicrhau rheolaeth briodol o'r holl asesiadau a phrosesau sy'n gysylltiedig â dyfarnu Gradd a Bennir gan Ganolfan. **Bydd sicrhau'r hyn sydd orau ar gyfer y dysgwyr a'u llesiant yn allweddol yn y broses yn ogystal â sicrhau lleisiant staff y Ganolfan wrth weithredu'r prosesau.** Bydd hyn yn cynnwys gweithredu Polisi y Ganolfan, y broses o gynnal asesiadau; casglu holl ddata perthnasol a phrosesau Sicrhau Ansawdd yn briodol. Mae cyfrifoldeb trosfwaol gan y pennaeth ar raddau dros dro y dysgwyr a bydd yn llofnodi'r Datganiad Pennaeth y Ganolfan ar ddiwedd y broses yn yr haf. Bydd cadw cyswllt rheolaidd gyda'r rhieni a'r dysgwyr a darparu unrhyw hyfforddiant angenrheidiol i staff yn flaenoriaeth. Bydd aelodau'r Uwch Dim Arwain yn sicrhau cysondeb o ran canlyniadau a'u bod yn unol â'r graddau a ddyfarnwyd mewn blynyddoedd a fu.
- 3.3 Bydd y **Cydlynnydd Anghenion Ychwanegol (CAY)** yn sicrhau ymwybyddiaeth o'r holl drefniadau mynediad angenrheidiol ac addasiadau rhesymol i ddysgwyr sydd â'r hawl i'r gwasanaeth hwn. Yn ogystal, bydd y Cydlynnydd Anghenion Ychwanegol yn cydlynu darpariaeth cymorth ychwanegol yn unol â'r gofyn ac os yw hynny'n briodol.
- 3.4 **Arweinyddion Maes.** Bydd yr arweinyddion maes yn gweithio'n agos gyda'r UDA a'r CAY i sicrhau bod asesiadau'n cael eu cynnal yn unol â'r polisi a chanllawiau (gan gynnwys darparu trefniadau mynediad). Bydd hyn yn cynnwys paratoi dysgwyr, casglu a chofnodi marciau, cadw aseiniadau'n ddiogel a dilyn y broses Sicrhau Ansawdd fel y caiff ei disgrifio yn y ddogfen hon. Bydd yr Arweinydd Maes yn paratoi cynllun addas ar gyfer asesu pwnc (Gweler Dogfen YGC). Bydd Arweinyddion Maes ynghyd ag athrawon dosbarth yn nodi unrhyw wrthdaro buddiannau gan weithredu yn unol â sut y caiff rhain eu rheoli gyda'r Aelod Uwch o staff sydd â chyfrifoldeb am Arholiadau a than arweiniad canllawiau CBAC. Bydd Arweinyddion Maes yn adnabod ac yn datgan unrhyw anghenion hyfforddiant staff ar gyfer y broses asesu er mwyn caniatáu bod y broses yn cael ei chynnal a'i gweinyddu'n gywir.
- 3.5 Bydd **Staff Addysgu** yn gweithio o dan gyfarwyddyd yr Arweinydd Maes gan sicrhau bod y polisi a'r cynllun asesu perthnasol yn cael eu dilyn. Bydd eu gwaith yn cynnwys paratoi'r dysgwyr, cynnal yr asesiadau, sicrhau bod y dysgwyr hynny sydd â hawl i fynediad at drefniadau arbennig ac addasiadau rhesymol yn derbyn yr hawl honno, marcio a chynnal proses sicrhau ansawdd o fewn terfynau amser penodol. Bydd angen i athrawon gadw'r holl dystiolaeth y seiliwyd gradd y dysgwr arno, gan gynnwys copïau o waith y dysgwr ac unrhyw gofnodion marciau. Bydd disgwyl iddynt sicrhau bod y dystiolaeth hon yn ddiogel. Mae'r dystiolaeth hon yn hanfodol i gefnogi'r broses sicrhau ansawdd a'r broses apeliadau.
- 3.6 Bydd **Swyddog Arholiadau** yn rheoli'r gwaith gweinyddu Graddau a Chymwysterau a Bennir gan y Ganolfan gan gynnwys cydlynu'r broses o gasglu cofrestrïadau cymwysterau priodol y dysgwyr. Yn ogystal, bydd swyddog arholiadau yn cefnogi staff addysgu a thîm arweinyddiaeth yr ysgol. Bydd y Swyddog Arholiadau yn darparu staff addysgu gyda'r wybodaeth am ddarpariaeth ystyriaeth arbennig sy'n wahanol i'r broses yn y blynyddoedd a fu. Bydd Ystyriaeth Arbennig (Gweler Dogfen YGC) yn cael ei ddyfarnu wrth ddewis gwaith wedi'i gwblhau yn ystod cyfnodau nad oedd yr amgylchiadau arbennig yn effeithio ar y dysgwr.
- 3.7 Cyfrifoldeb pawb sy'n ymwneud â'r broses Graddau a Bennir gan Ganolfan yw darllen, deall a

gweithredu'r polisi.

#### 4. Cynlluniau Asesu Pynciau

- 4.1 Bydd pob pwnc yn creu cynllun asesu pwnc sy'n amlinellu sut byddant yn pennu gradd y dysgwr. Bydd hyn yn cynnwys defnydd o'r dystiolaeth, y modd caiff graddau eu dyfarnu, dyddiad arfaethedig yr asesiadau a'r fethodoleg asesu. Bydd hyn yn cynnwys lefel y rheolaeth a'r trefniadau sicrhau ansawdd fydd ar waith i sicrhau cysondeb a thrylwyrdd.
- 4.2 Yn ogystal, bydd pob cynllun asesu pwnc yn amlinellu sut y mae ymdrin â threfniadau mynediad a materion sy'n ymwneud a chydraddoldeb. Bydd gofynion hyfforddiant yn cael eu nodi yn y cynllun pwnc.
- 4.3 Bydd Arweinyddion Maes yn nodi yn y cynllun asesu pwnc; pa asesiadau y byddant yn eu defnyddio a sut y byddant yn sicrhau ansawdd y canlyniadau. Caiff sicrhau ansawdd eu cynnal ar lefel adrannol ac arweinyddiaeth.
- 4.4 Yn y lle cyntaf, bydd rheolwr llinell perthnasol y Tîm Arweinyddiaeth yn sicrhau ansawdd y cynllun asesu pwnc. Caiff y cynlluniau hyn wiriad sicrhau ansawdd pellach gan y Dirprwy Bennaeth, a fydd yn cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am gysondeb y cynlluniau hyn ar draws y ganolfan.
- 4.5 Cyflwynir yn llawn i'r Uwch Dim Arwain:
- Map Tystiolaeth ar gyfer y Cymhwyster
  - Dogfen i flaenoriaethu asesiadau i gau'r cylch tystiolaeth
  - Cynllun Asesu pwnc.
- 4.6 Wrth bennu gradd, gellir defnyddio'r mathau canlynol o dystiolaeth ar gyfer pob cymhwyster:
- 4.6.1 Cwestiynau cyn-bapurau wedi'u haddasu.  
Bydd y ganolfan yn gwneud defnydd helaeth o gyn-bapurau CBAC wedi'u haddasu wrth osod tasgau ac wrth bennu gradd ar gyfer pob cymhwyster. Mae sicrhau ansawdd allanol i gyn-bapurau wedi'u haddasu eisoes ac maent wedi eu cefnogi gan gynlluniau marcio ac yn gyfarwydd i ddysgwyr a staff.  
Bydd athrawon yn sicrhau bod cyn-bapurau wedi'u haddasu yn rhan annatod o'r addysgu a dysgu a'r profiadau allweddol a geir ar lawr y dosbarth er mwyn datblygu sgiliau, gwybodaeth a chynnig profiadau cynhwysfawr i'r disgyblion.
- 4.6.2 Asesiadau Di-arholiad  
Ar hyn o bryd, mae asesiadau di-arholiad (neu 'waith cwrs') yn bodoli mewn llawer o gymwysterau. Bydd athrawon yn defnyddio perfformiad y dysgwyr yn yr elfen hon i bennu gradd. Fodd bynnag, bydd angen i athrawon ystyried pwyslais yr elfen hon i sicrhau bod y radd a bennir yn adlewyrchiad cywir o safon gyffredinol y dysgwr. Efallai, mewn pwnc arbennig, yn rhannol yn unig mae'r asesiad di-arholiad wedi'i gwblhau. Nid yw'n atal cael ei ddefnyddio i bennu gradd.
- 4.6.3 Amrediad o dystiolaeth arall:
- a. **Cyn-bapurau CBAC wedi'u cwblhau eisoes** - Gall athrawon ddefnyddio tystiolaeth o gyn-bapurau sydd wedi'u cwblhau eisoes. Bydd sicrhau ansawdd allanol i'r cyn-bapurau hyn a chynllun marcio wedi ei gymeradwyo. Yn ogystal â'u cwblhau o dan amodau rheolaeth briodol.

- b. Asesiadau a gynhaliwyd cyn cyhoeddi dull cyffredin gweithredu CBAC** - Gellir defnyddio'r math hwn o dystiolaeth, er enghraifft **ffug arholiadau i gadarnhau dyfarniad ond nid o reidrwydd i benderfynu ar ddyfarniad**. Y rheswm am hyn yw nad oedd y dysgwyr yn ymwybodol yn ystod cyfnod cwblhau'r dasg ei fod yn ddarn o waith ar gyfer pennu gradd. Mae hyn er mwyn sicrhau tegwch a chware teg i bob dysgwr.

- 4.7 Bydd nifer y darnau o dystiolaeth sydd eu hangen i bennu gradd yn amrywio ar gyfer pob cymhwyster.
- 4.8 Bydd athrawon yn sicrhau digon o gyfleoedd i ddysgwyr ddarparu tystiolaeth glir i ddangos eu gallu yn erbyn amcanion asesu'r cymhwyster. Mae'r amcanion asesu wedi eu cofnodi yn fframweithiau pwnc CBAC ac o fewn y Manylebau a addaswyd ar gyfer Haf 2021.
- 4.9 Yn y lle cyntaf, mae rhaid i Arweinyddion Maes sy'n penderfynu creu eu hasesiadau eu hunain ymgynghori â'r Aelod Cyswllt ar yr UDA ar ôl darllen Canllaw Creu Asesiad Canolfan CBAC. Sicrheir gan yr Aelod Cyswllt ar yr UDA fod athrawon y cymhwyster hwn wedi dangos tystiolaeth eu bod wedi cwblhau hyfforddiant CBAC ar 'Addasu Cwestiynau Arholiad' a geir ar Wefan Ddiogel CBAC.
- 4.10 Bydd yr holl dasgau sydd o fewn y dystiolaeth wedi eu cynnal o dan amodau teg a chyson gyda ffiniau amser dynodedig a'r lefel briodol o reolaeth sydd yn cyd- fynd gyda'r fanyleb a'r canllawiau.
- 4.11 Ni fydd unrhyw dystiolaeth asesu sydd yn cael ei gynhyrchu yn ystod y broses hon yn awr yn cynnwys tasgau wedi cwblhau ar ffurf arholiad yn y Neuadd gyda goruchwylwyr allanol.

## **5. Asesiadau wedi'u creu yn y ganolfan**

- 5.1 Caiff staff eu hannog i ddefnyddio'r deunyddiau asesu wedi'u safoni, lle bo hynny'n bosibl.
- 5.2 Ni fydd pynciau yn Ysgol Glan Clwyd fel mae pethau yn sefyll yn dyfeisio asesiadau cwbl o'r newydd heb iddynt fod wedi'u seilio mewn unrhyw ffordd ar ddeunyddiau CBAC er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch.
- 5.3 Mewn sefyllfa eithriadol, pe bai pwnc yn penderfynu defnyddio asesiad wedi'i greu yn y ganolfan bydd yn rhaid trafod oblygiadau hyn ac amlinellu eu cynlluniau gyda'r Aelod Cyswllt ar yr UDA. Mae'n RHAID i'r gweithgareddau fodloni holl feini prawf asesu a chyfeirio'n ofalus at Ganllawiau Creu Asesiadau Canolfan CBAC.
- 5.4 Dylai staff addysgu hefyd nodi eu presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi ar-lein CBAC

## 6 Darparu Asesiadau

- 6.1 Bydd pynciau yn dogfennu'r fethodoleg asesu yn eu cynlluniau asesu pwnc. Mae rhaid i hyn gynnwys:
- Ble cynhelir yr asesiad
  - Lefel y rheolaeth
  - Natur a hyd yr asesiad
  - Trefniadau mynediad.
- 6.2 Bydd y dysgwyr yn derbyn digon o rybudd am asesiadau a gwybodaeth ynglŷn â pha bynciau fydd yn cael sylw. Ni chaiff y dysgwyr yr asesiad ymlaen llaw. Dylai'r dysgwyr gwblhau asesiad yn unol â ffiniau amser unrhyw arholiad safonol e.e. 45 munud i gwblhau traethawd. Caiff y dysgwyr yr un mynediad at adnoddau a deunyddiau a chânt mewn arholiad safonol (h.y. deunydd clywedol/gweledol; testunau heb eu hanodi. Hysbysir dysgwyr nad oes mynediad at ffonau symudol na'r rhyngwyd oni bai bod angen gwneud hyn er mwyn cael mynediad i'r asesiad.)
- 6.3 Er mwyn hyrwyddo llesiant ein disgyblion nid oes angen i'r ganolfan gyflwyno'r gweithgaredd asesu mewn un sesiwn – fel papur arholiad cyflawn. Gall staff addysgu rannu'r deunyddiau asesu i gyd-fynd â'r rhaglen ddysgu. Bydd dysgwyr sydd â threfniadau mynediad yn derbyn amser ychwanegol i gwblhau'r tasgau asesu.
- 6.4 Er mwyn sicrhau tegwch i bob dysgwr, mae'n rhaid i'r Ganolfan fod yn hyderus mai gwaith y dysgwr sy'n cael ei gyflwyno. Caiff y dysgwyr wybodaeth am reoliadau camymddwyn cyn cynnal unrhyw asesiad.
- 6.5 Bydd gwaith asesu sy'n benodol ar gyfer dyrannu Gradd a Bennir gan y Ganolfan yn cael ei gwblhau'n annibynnol gan y dysgwyr, o dan reolaeth tebyg i asesiadau di-arholiad.
- 6.6 Mewn sefyllfa lle nad oes dewis ond yr angen am barhau asesiad dan amodau gwahanol dylai athrawon ystyried yn ofalus unrhyw newidiadau mewn lefel rheolaeth. Gall y darn hwnnw o waith, mewn sefyllfa eithriadol, fod heb y lefel arferol o oruchwyliaeth. Bydd angen dogfennu cymariaethau rhwng y gwaith sydd wedi'i oruchwyllo a'r gwaith sydd wedi'i gwblhau heb oruchwyliaeth gan ystyried hyn wrth nodi'r Radd a Bennir.
- 6.7 Lle bynnag y bo modd, bydd gwaith yn cael ei gwblhau yn y dosbarth yn hytrach na chynnal y gweithgareddau arferol yn yr ystafell ddosbarth. Efallai y bydd cyfnodau pan fo angen cwblhau'r gwaith gartref e.e. cyfyngiadau cyfnod clo cenedlaethol neu hunanynysu.
- 6.8 Bydd yr ysgol yn cyflwyno mesurau lliniaru ychwanegol i sicrhau, cyn belled ag y bo modd, mai gwaith personol y dysgwr yn unig sy'n cael ei gyflwyno.
- 6.9 Bydd yr ysgol hefyd yn ystyried gwaith ac asesiadau blaenorol y dysgwr i wirio dilysrwydd. Mae hyn yn arbennig o berthnasol pan fo'r dystiolaeth a gyflwynir yn annodweddiadol o safon arferol y dysgwr. Gall staff ymgymryd â gweithgareddau pellach gyda dysgwyr er mwyn gwirio a yw'r gwaith yn waith gwreiddiol gan y disgybl, e.e. sesiwn holi ac ateb gyda'r dysgwr neu weithgaredd asesu ychwanegol. Mae Canllawiau arbennig gan CBAC yn dynodi'r camau posib hyn.

- 6.10 Pan fo'n bosibl, bydd asesiadau'n cael eu cwblhau yr un pryd o fewn pwnc. Bydd dysgwyr sy'n absennol yn ystod asesiadau yn yr ystafell ddosbarth yn derbyn ail gyfle i sefyll yr asesiad gydag asesiad gwahanol lle bo'r modd mewn cyfnodau penodedig.
- 6.11 Bydd canlyniadau'r asesiadau yn cael eu cofnodi gan yr athro dosbarth. Ni fydd cyfle i'r dysgwyr wella eu gwaith.
- 6.12 Ni fydd trafodaeth rhwng y dysgwyr a/neu rieni gyda staff unigol o fewn y pwnc ynghylch y radd derfynol, hyd nes y dyddiad penodedig ym mis Mehefin. O ganlyniad ni fydd Asesiad 4 yn cael ei ryddhau i ddisgyblion blynyddoedd 11,12,13 eleni. ( 2021)
- 6.13 Yn unol â pholisïau presennol mewn perthynas ag Arholiadau Cyhoeddus ac Asesiad dan Reolaeth, bydd y ganolfan yn sicrhau ei bod yn cydymffurfio a'i Dyletswydd Cydraddoldeb yn y sector Cyhoeddus.
- 6.14.1 Bydd y ganolfan yn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â rheolau diogelu data a phrosesu data.

## 7. Sicrhau ansawdd penderfyniadau asesu a graddio

### 7.1 Asesu gwaith

- 7.1.1 Cyfrifoldeb pob athro sy'n addysgu'r pwnc ar y lefel berthnasol fydd asesu'r gwaith. Bydd athro pwnc yn asesu gwaith y dysgwr yn eu dosbarth, gan ddilyn y Canllawiau Asesu Pynciol. Bydd yr athro pwnc yn cofnodi'r marc a'r radd a'u cadw'n ddiogel.
- 7.1.2 Bydd yr Arweinyddion Maes yn sicrhau fod y dystiolaeth o waith asesu yn cael ei gadw'n **saff a than glo** mewn cwpwrdd ffeilio/cwpwrdd o fewn swyddfa'r Adran.
- 7.1.3 Bydd Arweinyddion Maes yn sicrhau bod gan staff addysgu ddealltwriaeth gyffredin o gynlluniau marcio. Bydd cyfleoedd hyfforddi ar lefel pwnc ar gael i hwyluso'r marcio.
- 7.1.4 Bydd yr athrawon pwnc yn gweithio dan arweiniad yr Arweinwyr Maes er mwyn sicrhau fod y Graddau a Bennir yn cael eu cofnodi ar sail tystiolaeth gadarn a di-duedd.

### 7.2 Penderfyniadau Graddio Terfynol

- 7.2.1 Ar gyfer pob cymhwyster, bydd athrawon yn defnyddio fframweithiau asesu pwnc CBAC sy'n cynnwys disgrifyddion ar gyfer graddau allweddol. Rhaid i bob gradd a ddyfarnwyd gan yr ysgol gael ei hategu gan dystiolaeth gadarn.
- 7.2.2 Ni chaniateir athrawon pwnc gyhoeddi Gradd a Bennir gan Ganolfan yn seiliedig ar ragfynegiad proffesiynol na photensial dysgwr mewn pwnc penodol. Bydd yn ofynnol i athrawon gymhwyso barn broffesiynol a phenderfynu a yw'r wybodaeth a'r sgiliau a ddangoswyd gan y dysgwr sy'n bodloni safon arferol gradd benodedig.
- 7.2.3 Penderfynir ar radd yn defnyddio'r dull holistaidd ond rhaid cadarnhau'r radd gyda thystiolaeth o gyrhaeddiad y dysgwr yn y meysydd y mae wedi'i astudio.
- 7.2.4 Nid yw'r safon a ddisgwylir ar gyfer unrhyw radd benodol yn ddim is na blynyddoedd a fu, ond mae'n anochel y bydd swmp y gwaith a gwblhawyd yn y fanyleb llawer llai.
- 7.2.5 Bydd yn ofynnol i'r Ganolfan benderfynu ar y Radd a Bennir yn ôl yr hyn sy'n 'gweddu orau' i'r disgybl yn ôl y dystiolaeth a gyflwynir. Defnyddir y disgrifyddion graddau wrth benderfynu ar y radd. Nid oes rhaid i ddysgwyr ddangos pob agwedd ar y disgrifydd i dderbyn y radd honno. Mae'n bwysig bod tystiolaeth o gyrhaeddiad 'ar draws digon o ehanger o gynnwys' fel y nodir gan CBAC. Gall dysgwyr gyflawni'r un radd trwy arddangos gwahanol gyfuniadau o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth. Er nad yw pwysoliadau yn cael eu rhagnodi, bydd athrawon yn ystyried pwysoliadau amcanion ac asesiadau'r uned yn y fanyleb. Ni fydd tystiolaeth o gyflawniad uchel mewn agwedd gul o'r cymhwyster, ar ei phen ei hun, yn cyfiawnhau gradd uchel.
- 7.2.6 Bydd data asesu dysgwyr (h.y. perfformiad blaenorol y disgybl yn y pwnc hwnnw) yn sail i drafodaethau ynghylch y penderfyniadau a wneir.
- 7.2.7 Caiff y graddio ei gwblhau'n wrthrychol, yn deg ac heb ragfarn. Darperir hyfforddiant i staff addysgu

gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o 22.3.21.

- 7.2.8 Lle nad oes digon o dystiolaeth, neu os yw'r dystiolaeth yn is na'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer y radd ddyfarnu isaf mewn cymhwyster, dyfernir gradd U.
- 7.2.9 Gan nad yw dysgwr yn gwneud arholiadau eleni, ni fydd ceisiadau am ystyriaeth arbennig yn berthnasol eleni os bydd y dysgwr yn methu gwneud asesiad neu'n mynd drwy rywbeth trawmatig allai effeithio ar ei berfformiad.
- 7.2.10 Wrth ystyried amgylchiadau arbennig dysgwyr, bydd dysgwyr yn derbyn gradd ar eu perfformiad yn nghynnwys y pwnc. Cyfeiriwch at Atodiad 2 Ystyriaethau Arbennig.
- 7.2.11 Bydd yr ysgol yn cofnodi pob penderfyniad yn eu cofnodion gwneud penderfyniadau dysgwyr.
- 7.2.12 Bydd y ddogfen hon yn amlinellu'r holl dystiolaeth a ddefnyddir i bennu gradd a bydd yn sail resymegol i'r radd a bennir.
- 7.2.13 Ar y ffurflen hon rhoddir esboniad clir i helpu rhieni a dysgwyr ddeall y rheswm dros y radd a ddyfarnwyd. Gall hyn fod yn sail i unrhyw ymholiad am apêl.

### 7.3 Sicrhau Ansawdd

- 7.3.1 Bwriad safoni mewnol a sicrhau ansawdd yw:
  - Rhoi hyder i'r athrawon yn y Graddau a Bennir gan y Ganolfan,
  - Sicrhau tegwch a phenderfyniadau gwrthrychol,
  - Sicrhau cysondeb wrth gymhwyso meini prawf a safonau asesu.
  - Datrys gwahaniaethau barn rhwng athrawon dros raddau a bennir.

### 7.4 Prosesau Sicrhau Ansawdd Asesu

- 7.4.1 Nodir y bydd pob AM yn cyflwyno gwybodaeth o fewn y Cynllun Asesu Adrannol ynghylch y modd y bydd y cymhwyster yn cael ei safoni. Bydd trafodaethau manwl yn digwydd gyda'r aelod cyswllt ar yr UDA er mwyn adolygu'r gweithdrefnau, y dystiolaeth, y penderfyniadau a'r proffil graddau.
- 7.4.2 Bydd safoni mewnol yn cynnwys yr holl bobl hynny sy'n gyfrifol am addysgu'r pwnc. Bydd yn cynnwys croes-archwilio'r marcio ar draws ystod lawn y marciau ac yn cynnwys sampl o ddysgwyr o bob dosbarth.
- 7.4.3 Bydd pob maes pwnc yn penderfynu ar faint y sampl safoni mewnol. Yr unig eithriad yw pan mae llai na 10 disgybl yn y dosbarth; yn yr achos hwn bydd y dosbarth cyfan yn cael eu cymedroli.
- 7.4.4 Bydd meysydd pwnc hefyd yn nodi a oes unrhyw wrthdaro buddiannau wrth bennu'r sampl safoni. Er enghraifft, aelod o staff gyda phlentyn yn y grŵp blwyddyn/maes pwnc neu ddsbarth, neu mewn perthynas ag athrawon sy'n asesu gwaith eu teulu neu ffrindiau.
- 7.4.5 Bydd yr Arweinydd Maes yn sicrhau bod y sampl o waith i'w gymedroli yn cwmpasu'r sbectrwm llawn o raddau a gwaith pob athro sydd wedi paratoi dysgwyr a gwaith asesu. Byddant hefyd yn goruchwylio unrhyw faterion sy'n ymwneud â gwrthdaro buddiannau.
- 7.4.6 Bydd safoni mewnol hefyd yn sicrhau bod dysgwyr sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig yn cael eu cynnwys yn y broses samplu (i gydymffurfio â deddfwriaeth Cydraddoldeb ac Anabledd).
- 7.4.7 Bydd yr holl samplau yn cael eu safoni yn ddiennw i osgoi rhagfarn ymwybodol/anymwybodol.
- 7.4.8 Bydd staff pwnc yn ymgymryd â gweithgareddau cymedroli yn unol â'r amserlen.
- 7.4.9 Wrth gymedroli darn o dystiolaeth, bydd sylwadau ychwanegol gan aelod o staff arall yn cefnogi'r asesu gan egluro'r rheswm dros hynny neu yn herio'r radd a roddwyd gan resymegu'r rheswm dros herio'r radd/marc hwnnw.
- 7.4.10 Bydd yr Arweinydd Maes yn adolygu unrhyw anghysondebau.
- 7.4.11 O ganlyniad i gymedroli mewnol, efallai y bydd angen addasu penderfyniad athro i:
  - Gyfateb y safonau i gyd-fynd â'r canllawiau a ddarperir .
  - Gyfuno barn athrawon yr adran.
  - Fodloni gofynion mewn perthynas â deddfwriaeth Cydraddoldeb ac Anabledd
- 7.4.12 Bydd unrhyw amrywiadau, addasiadau ac ati o ganlyniad i'r broses safoni mewnol yn cael eu cofnodi. Darperir templed canolog i'r pwrpas hwn.



## **7.5 Sicrhau Ansawdd Penderfyniadau Graddio Cyffredinol**

- 7.5.1 Yn dilyn unrhyw addasiadau a wneir yn dilyn safoni mewnol yn yr adran mi fydd yr Arweinydd Maes yn samplu trawstoriad o dystiolaeth terfynol disgyblion i sicrhau bod penderfyniadau graddio wedi'u gwneud yn deg ac yn gyson.
- 7.5.2 Mae angen cynnwys dysgwyr â nodweddion gwarchodedig yn y samplau. Penderfynir ar faint y sampl safoni yn gyson gyda'r hyn a nodir uchod.
- 7.5.3 Bydd canlyniadau cymedroli a safoni yn cael eu cofnodi a'u cadw. Darperir templed canolog i'r pwrpas hwn.

## **7.6 Y Graddau a Bennir yn derfynol o fewn pwnc**

- 7.6.1 Dylai'r Graddau a Bennir gan y Ganolfan adlewyrchu'r safonau cyffredinol y pwnc dros y blynyddoedd diwethaf. Bydd Arweinyddion Maes yn sicrhau bod y graddau yn unol â pherfformiad y pwnc penodol hwnnw yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac yn rhoi sail a thystiolaeth resymegol dros unrhyw amrywiad sylweddol.
- 7.6.2 Bydd Arweinyddion Maes hefyd yn ystyried amrywiadau mewn canlyniadau o fewn yr ysgol gan ddefnyddio'r offeryn dadansoddi SMID ac ALPS.
- 7.6.3 Bydd UDA y ganolfan yn ymgymryd â phroses Sicrhau Ansawdd arall i sicrhau bod y graddau a ddyfarnwyd yn unol â'r graddau o gyfresi arholiadau allanol blaenorol.
- 7.6.4 Bydd yr UDA yn dod i gasgliad ac yn cyflwyno'r wybodaeth am berfformiad cyd-destunol ar gyfer grŵp blwyddyn penodol. Gall hyn gynnwys data MIDYIS, lefelau Cyfnod Allweddol 3, profion Cenedlaethol a data cynnydd Cyfnod Allweddol 4. Bydd y wybodaeth hon yn allweddol i'r perfformiad data.

## **8. Cyfathrebu rhwng dysgwyr a rhieni/gofalwyr**

- 8.1 Mae cynnwys dysgwyr a rhieni a'r defnydd o gynllun cyfathrebu clir yn flaenoriaeth i feithrin hyder yn y dull sy'n cael ei ddefnyddio gan y Ganolfan.
- 8.2 Bydd cynllun cyfathrebu rhieni a dysgwyr ar waith i ddarparu gwybodaeth am y meysydd allweddol.
- 8.3 Cyn y Pasg, bydd y dysgwyr yn derbyn:
  - Trosolwg o broses Gradd a Bennir gan y Ganolfan
  - Dyddiadau'r ffenestr asesu.
  - Pa wybodaeth fydd yn cael ei hystyried gan athrawon pwnc wrth benderfynu ar Radd a Bennir gan y Ganolfan.
- 8.4 Mi fydd angen i rieni gydnabod eu bod wedi derbyn a darllen yr wybodaeth uchod ar ffurf Google Form. Gwneir un galwad gartref os nad oes cydnabyddiaeth fod y wybodaeth wedi ei dderbyn gan riant er mwyn cadarnhau eu dealltwriaeth o'r broses. Cofnodir dyddiad ac amser yr alwad gan yr aelod o staff sydd yn gyfrifol am hyn.
- 8.5 Unwaith y bydd CBAC wedi sicrhau ansawdd Cynllun Asesu'r Ganolfan, bydd rhieni a dysgwyr yn derbyn copi. Yn ogystal â'r pwyntiau uchod, bydd hyn hefyd yn cynnwys:
  - Pa mor fanwl a pherthnasol y mae trefniadau mynediad ac ystyriaeth arbennig wedi'u cynnal.
  - Cofnodi dystiolaeth sy'n cyfrannu at bennu eu gradd cymhwyster terfynol.
  - Y prosesau cymedroli mewnol sydd i'w cynnal gan y ganolfan
  - Cofnodi adolygiadau y gofynnir amdanynt gan y dysgwyr a chanlyniad adolygiadau o'r fath (Gweithdrefnau cwyno).
- 8.6 Ar ôl y Pasg a thrwy addysgu a dysgu yn y pynciau, bydd dysgwyr yn cael gwybod am:

- Dyddiadau eu hasesiadau pwnc
- Y pynciau a drafodir ym mhob asesiad. Sylwch na fydd y dysgwyr yn derbyn yr un asesiad ymlaen llaw.
- Yr angen i sicrhau bod yr holl waith a gwblhawyd mewn gweithgareddau asesu yn wreiddiol ac os nad yw hyn yn wir, yna byddai'n cael ei ystyried yn gamymddwyn.
- Hawl i'w 'trefniadau mynediad' arferol os yw'n briodol.

8.7 Rhagwelir y bydd dysgwyr yn cael gwybod am y graddau a bennwyd ar eu cyfer gan y Ganolfan fel graddau dros dro ar ddechrau'r w/d 21.6.21.

## 9. Adolygiadau a chwynion mewnol

9.1 Bydd pob dysgwr yn cael gwybod am ei hawl i apelio yn erbyn ei radd unwaith caiff y graddau dros dro eu cyhoeddi ym mis Mehefin.

- Cam 1: Gall dysgwr ofyn am adolygu gradd dros dro cyn ei chyflwyno i CBAC. Gall hyn arwain at godi neu ostwng gradd. Bydd yr aelod o staff sy'n ymgymryd â'r broses adolygu hon yn aelod gwrthrychol o staff ac nid yr athro pwnc perthnasol.
- Cam 2: Unwaith y bydd y canlyniadau terfynol wedi'u cyhoeddi ar ddiwrnodau canlyniadau, gall dysgwyr apelio i CBAC drwy'r ysgol, os teimlir bod dyfarniad yn afresymol neu'n anghywir. Gall CBAC ostwng neu godi'r radd yn dilyn y broses hon.
- Cam 3: Gall dysgwyr ofyn am Wasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiadau gan Gymwysterau Cymru i wirio a yw CBAC wedi dilyn y gweithdrefnau gofynnol.

Awduron	Enw'r Ddogfen	Hygyrchedd
CBAC	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Canllaw i bolisi canolfannau ar brosesau asesu a sicrhau ansawdd.( Mawrth 2021)</li> <li>• Siart Llif Proses Sicrhau Ansawdd Allanol CBAC Haf 2021 (Mawrth 2021)</li> <li>• Llinell amser i Ganolfannau</li> </ul>	Gwefan CBAC
Cymwysterau Cymru	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Canllawiau am drefniadau amgen ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch sydd wedi eu cymeradwyo.</li> </ul>	Gwefan Cymwysterau Cymru
CBAC	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol</li> </ul>	Gellir cael y ddogfen drwy gais.
CBAC	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Canllawiau i Ystyriaeth Arbennig</li> </ul>	Gellir cael y ddogfen drwy gais.
YGC	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Canllawiau Asesu Pwnc YGC</li> </ul>	Gellir cael y ddogfen drwy gais.
YGC	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Amserlen Asesiadau a Safoni YGC</li> </ul>	Gellir cael y ddogfen drwy gais.